

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Willowbrook, Bwrdd
Iechyd Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 03 Chwefror 2025

Dyddiad cyhoeddi: 06 Mai 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf.....	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	31

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Willowbrook, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ar 03 Chwefror 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd dau holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a phedwar gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion yn y practis, a oedd wedi'i harddangos yn yr ardaloedd aros i gleifion ac yn cael ei hyrwyddo drwy wefan y practis. Roedd monitor pwysedd gwaed yn yr ardal aros hefyd y gallai cleifion ei ddefnyddio heb drefnu apwyntiad.

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch ac roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd yn ystod ymgynghoriadau. Gwelsom staff y dderbynfa yn cyfarch y cleifion mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar, ac roedd mesurau ar waith i ddiogelu cyfrinachedd yn ystod galwadau ffôn ac wrth ddesg y dderbynfa.

Gallai'r cleifion weld amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol drwy grŵp clwstwr y feddygfa, gan gynnwys ffisiotherapyddion, gwasanaethau iechyd meddwl a fferyllwyr. Roedd staff y practis yn gweithio'n agos gyda'u grŵp cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir, yn enwedig cleifion agored i niwed. Byddent yn cysylltu â'r cleifion hynny yn uniongyrchol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu cael gwasanaethau penodol i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd mynediad da i'r safle a oedd yn galluogi cleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r practis hefyd er mwyn gallu cefnogi aelodau o'u cymuned ag anghenion iaith penodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis ddiweddarau ei restr llif gwaith yn y polisi er mwyn sicrhau bod yr unigolyn mwyaf priodol yn ymdrin â phob gohebiaeth

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynediad da i gleifion
- Roedd yn darparu monitor pwysedd gwaed, ac roedd cleifion yn gallu ei ddefnyddio heb drefnu apwyntiad
- Mynediad i wasanaethau cyfieithu i gefnogi cleifion â gofynion iaith penodol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd ein canfyddiadau dîm ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn gweithio'n galed i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys yn yr ystafelloedd clinigol. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod. Ar adeg yr ymweliad, roedd y practis wrthi'n gwneud gwelliannau i'r amgylchedd.

Roedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn dderbyniol ar y cyfan, ond mae angen gwella rhai meysydd er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol yn gyson a sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergelloedd ac yn cael eu cofnodi. Roedd cylchrediad aer da yn yr oergelloedd y gwnaethom eu harchwilio am fod y meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Roedd trefn briodol ar waith pe byddai angen help ar frys yn y practis. Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio yn ystafell y nyrs. Gallai fod yn anodd cael gafael ar y pecyn brys os oedd claf yn yr ystafell ac felly, gwnaethom argymhell y dylid symud y cyffuriau a'r cyfarpar brys i ardal lle gellid cael gafael arnynt yn hawdd.

Roedd y gweithdrefnau diogelu a oedd ar waith yn foddhaol wedi'u hategu gan bolisi, a oedd hefyd yn nodi'r arweinwyr diogelu penodedig. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y lefel o hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i rolau'r staff, ac fel y rhestrir yn y polisi, yn cyfateb i gofnodion y staff.

Ar y cyfan, roedd cofnodion meddygol y cleifion o ansawdd da. Roeddent yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roedd y nodiadau ynddynt wedi'u hysgrifennu ar y pryd, ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

Roedd ymatebion y staff a gwblhaodd yr holiadur yn gadarnhaol. Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo mai gofalu am gleifion oedd prif flaenoriaeth y practis hwn ac roedd pob un ohonynt yn fodlon ar ymdrechion y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd cyffur a reolir wedi'i storio mewn cwpwrdd nad oedd wedi'i gloi
- Roedd dyddiadau defnyddio rhywfaint o'r cyfarpar a'r meddyginiaethau wedi mynd heibio.

- Nid oedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn ddigon cadarn i gyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau a chynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Caiff manylion am y gwelliannau sydd eu hangen ar unwaith, a'r camau unioni, eu nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ailystyried symud y cyffuriau a'r cyfarpar brys i ardal lle gellid cael gafael arnynt yn hawdd
- Sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu fel y rhestrir yn y polisi
- Ehangu ei broses er mwyn gallu archwilio pryd a phwy sy'n casglu presgripsiynau ar gyfer cyffuriau a reolir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion cleifion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall
- Roedd gan y practis drefniadau cydweithio da fel rhan o'r clwstwr er mwyn sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi
- Roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac roedd gwiriadau priodol wedi cael eu cynnal.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd hyn wedi'i ategu gan gyfres o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ac roedd prosesau addas ar waith i rannu unrhyw ddiweddariadau gwybodaeth â'r staff.

Roedd platform hyfforddiant ar-lein ar gael i'r staff ac roeddent yn cael amser i gwblhau hyfforddiant. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, roedd angen hyfforddiant gloywi ar rai ohonynt ac mae angen iddynt gwblhau'r hyfforddiant hwnnw yn ddi-oed er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau'n gyfredol. Roedd matrices hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu, a fydd yn rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth pob aelod o staff y practis â'r gofynion o ran hyfforddiant.

Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer. Roedd y broses o rannu gwybodaeth â'r staff yn cael ei hwyluso drwy yriant a rennir a hysbysiadau e-bost am newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau. Roedd polisiau yn fanwl, yn benodol i'r practis, ac ar gael i bob aelod o'r staff ar ffurf ddigidol ac ar bapur.

Roedd gan y practis bolisi cwyno cynhwysfawr a oedd yn cydymffurfio â phroses Gweithio i Wella'r GIG, gydag aelodau penodol o staff yn gyfrifol am reoli cwynion. Mae polisi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, er ein bod yn argymhell y dylid rhoi hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn teimlo y gallent godi pryderon a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i bob aelod o'r staff gwblhau ei hyfforddiant gorfodol ar lefel sy'n benodol i'w rôl
- Rhaid i'r practis roi system ar waith sy'n sicrhau bod unigolion yn parhau'n addas i weithio yn y practis

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Proses gwyno a gaiff ei rheoli'n dda â systemau i nodi unrhyw themâu
- Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel
- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn ddymunol
- Ailddechrau'r grŵp cyfranogiad cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn ardaloedd aros y cleifion ac ar y sgrin arddangos ac yn cael ei hyrwyddo drwy wefan y practis. Gwelsom wybodaeth hybu iechyd am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys gwahanol grwpiau cymorth a gwybodaeth i ofalwyr.

Roedd monitor pwysedd gwaed yn yr ardal aros y gall cleifion ei ddefnyddio heb drefnu apwyntiad. Mae'r monitor pwysedd gwaed yn argraffu canlyniadau a gellir mynd â'r rhain i'r dderbynfa i'w hychwanegu at gofnodion y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn gwella ei allu i gysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol drwy ei grŵp clwstwr. Roedd hyn yn cynnwys ffisiotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl a fferyllwyr. Mae hyn yn galluogi'r cleifion i gael help a chymorth gan asiantaethau eraill mewn modd amserol.

Mae staff y practis yn gweithio'n agos gyda'u grŵp cleifion i sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir. Er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion agored i niwed yn cael gofal amserol, mae'r practis yn cadw rhestrau o gleifion y mae'n eu ffonio er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau penodol i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd gweithdrefn ar gyfer cleifion nad oedd rhywun wedi dod â nhw i'w hapwyntiad ('*was not brought*') wedi'i gynnwys fel rhan o'r polisi ar gyfer cleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiad ('*did not attend*'). Cadarnhaodd y staff fod unrhyw unigolyn sy'n colli ei apwyntiad yn cael llythyr, gan gynnwys unrhyw blant sy'n colli apwyntiadau, a hynny ar gyfer apwyntiadau yn y practis neu yn yr ysbyty. Roedd y polisi a'r system a oedd ar waith i reoli'r cleifion hyn yn briodol.

Roedd y broses a'r gwaith paratoi a oedd yn mynd rhagddo i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol.

Yn yr holiaduron i gleifion, dywedodd un claf wrthym fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis ond roedd ymatebydd arall yn anghytuno â'r datganiad hwn. Roedd y ddau ymatebydd yn anghytuno eu bod wedi cael cynnig cyngor ar ffyrdd iach o fyw ac yn anghytuno'n gryf bod eu meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd un claf ei fod yn teimlo bod y staff yn gwrando arno a'i fod yn cael ei gynnwys cymaint ag yr oedd am gael ei gynnwys mewn penderfyniadau am ei ofal iechyd. Roedd claf arall yn anghytuno'n gryf â hyn.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael.

Roedd un o'r ddau unigolyn a ymatebodd i'r holiadur i gleifion yn teimlo ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch, a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu ei breifatrwydd.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd modd ateb galwadau ffôn yn y swyddfa weinyddol, a oedd wedi'i lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli gyferbyn â'r ardal aros, a oedd yn cynnig rhyw lefel o breifatrwydd o'r ardal aros.

Roedd y ddau glaf yn anghytuno y byddent yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed.

Roedd hysbysiadau yn cynnig gwasanaeth hebryngwr wedi'u harddangos wrth ddesg y dderbynfa ac yn yr ystafelloedd clinigol. Roedd hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd yn cael eu cynnig, ac roedd hyn yn cynnwys staff clinigol ac anghlinigol. Roedd y polisi yn adlewyrchu'r broses a oedd ar waith, a gwelsom fod gwybodaeth i ddangos a gafodd y cynnig o hebryngwr ei dderbyn neu ei wrthod gan y claf yn cael ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

O ran y cleifion a ymatebodd i'r cwestiwn am hebryngwyr, dywedodd un ei fod wedi cael cynnig hebryngwr, a dywedodd un nad oedd yr opsiwn hwn yn berthnasol iddo.

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac mewn modd amserol. Caiff y cleifion eu hysbysu am y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt o ran trefnu apwyntiadau drwy wefan y practis, hysbysiadau yn yr ystafell aros a phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r staff hefyd yn rhoi gwybodaeth iddynt am y system apwyntiadau.

Caiff apwyntiadau eu trefnu dros y ffôn gan fwyaf, a dywedwyd wrthym y bydd staff y dderbynfa yn esbonio i'r cleifion pa fath o apwyntiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r cleifion yn cael cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb, ond os byddant yn gofyn am alwad ffôn, gellir trefnu hyn. Dywedodd y ddau unigolyn a ymatebodd i'r arolwg wrthym eu bod wedi trefnu apwyntiad wyneb yn wyneb yn y practis.

Roedd polisi mynediad ar waith gan y practis ac mae digon o wybodaeth ar y wefan am y systemau apwyntiadau.

Gwnaethom nodi bod y swyddogion llywio gofal wedi rhoi llwybr da ar waith, gan neilltuo cleifion i'r person neu'r gwasanaeth mwyaf priodol. Roedd y llwybr ar gael i'r staff i gyd ac roedd y swyddogion llywio gofal yn gallu cysylltu â'r meddyg ar alwad a oedd ar gael i roi arweiniad yn ôl yr angen. Mae'r staff yn cyfeirio cleifion at wasanaethau priodol gan ddefnyddio eu llwybr ac roeddent yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth yn y clwstwr.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion hunangyfeirio at y gwasanaeth iechyd meddwl.

Mewn ymateb i'n holiadur, roedd pob claf yn cytuno ei fod yn fodlon ar oriau agor y practis. Roedd y ddau glaf yn anghytuno eu bod yn gallu cysylltu â'r practis pan oedd angen iddynt wneud hynny dros y ffôn/system trefnu apwyntiadau ar-lein, ac roedd un o'r cleifion yn cytuno ei fod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddo weld meddyg teulu ar frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal.

Fel arfer, caiff cleifion wybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Os yw'n hysbys nad oes gan gleifion

fynediad at ddyfais ddigidol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion, a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelodau o staff yn y practis sy'n siarad Cymraeg ac nad oedd unrhyw gleifion a oedd wedi gofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r practis ac mae wedi defnyddio'r gwasanaethau hynny i gefnogi cleifion yr oedd angen gwasanaethau mewn iaith wahanol arnynt.

Roedd y practis yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n fewnol i'r bobl briodol gan ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r practis. Dywedodd y staff wrthym mai negeseuon e-bost oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio, am fod y dderbynneg darllen yn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei darllen a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r ohebiaeth honno, lle bo angen.

Roedd polisi llif gwaith ar waith, ond gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r rhestr llif gwaith er mwyn sicrhau bod yr unigolyn mwyaf priodol yn y tîm yn ymdrin â gohebiaeth.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r rhestr llif gwaith yn y polisi er mwyn sicrhau bod yr unigolyn mwyaf priodol yn ymdrin â phob gohebiaeth.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Roedd pob un o'r cleifion a atebodd holiadur AGIC o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Roedd hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael i'r staff ac roeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw. Nododd yr ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol hefyd yn cael eu parchu, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio o ddechrau'r cyfnod trawsnewid.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys o fewn ystafelloedd clinigol. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod. Ar adeg yr ymweliad, roedd y practis wrthi'n gwneud gwelliannau i'r amgylchedd.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith ac roedd ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff. Nid oedd y cynllun parhad busnes yn cynnwys gwybodaeth i esbonio sut y byddai gwasanaethau gofal iechyd hanfodol yn cael eu darparu o hyd i gleifion pe byddai'r unig feddyg teulu sy'n ymarfer yn y practis yn gadael yn sydyn.

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei gynllun parhad busnes i gynnwys y strategaeth a gaiff ei rhoi ar waith os na fydd yr unig feddyg teulu sy'n ymarfer yn y practis yn gallu gweithio.

Roedd gan y practis drefniadau cydweithio da fel rhan o'r clwstwr er mwyn sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Gwelsom sut roedd rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu derbyn a'u dosbarthu i'r practis a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd. Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn dda, ond gwnaethom argymhell y dylid cofnodi cyfarfodydd, ac y dylid adolygu digwyddiadau o bwys yn rheolaidd er mwyn pennu effaith unrhyw wersi a ddysgwyd.

Rhaid i'r practis gofnodi'r cyfarfodydd a gynhelir ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau o bwys a sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhoi ar waith.

Roedd trefn briodol ar waith pe byddai angen help ar frys yn y practis. Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio yn ystafell y nyrs. Gallai fod yn anodd cael gafael ar y pecyn brys os oedd claf yn yr ystafell ac felly gwnaethom argymhell y dylid symud y cyffuriau a'r cyfarpar brys i ardal lle gellid cael gafael arnynt yn hawdd.

Rhaid i'r practis ystyried symud y cyffuriau a'r cyfarpar brys i ardal lle gellid bob amser cael gafael arnynt yn hawdd.

Dywedwyd wrthym fod nifer yr ymweliadau cartref a gynhelir gan y feddygfa wedi lleihau'n sylweddol gan fod cartref gofal lleol wedi cau. Fodd bynnag, mae'r prosesau sydd ar waith ar gyfer cynnal ymweliadau cartref yr un fath ac maent yn cynnwys asesiadau cyffredinol o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau'r claf unigol, gan gynnwys yr angen am gyfarpar diogelu personol lle yr amheuir bod gan y claf haint a drosglwyddir drwy'r aer.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd yr oedd angen eu gwella er mwyn sicrhau bod y practis yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith ac ar gael i'r staff i gyd. Roedd y practis wedi penodi unigolyn penodol yn arweinydd atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, cadarnhaodd trafodaethau â'r staff nad oedd unrhyw gyngor na goruchwyliaeth glinigol yn cael eu rhoi o ran atal a rheoli heintiau, ac roedd hyn yn amlwg o'n canfyddiadau ar y diwrnod. Felly, gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod gan ei arweinydd atal a rheoli heintiau yr awdurdod i arwain ac i roi newidiadau ar waith yn yr ardaloedd clinigol a'r ardaloedd anghlinigol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan ei arweinydd atal a rheoli heintiau y sgiliau a'r profiad i arwain ac i roi newidiadau ar waith yn yr ardaloedd clinigol a'r ardaloedd anghlinigol.

Gwnaethom nodi fod y practis wedi gwneud gwelliannau i rai ardaloedd o'r feddygfa, gan gynnwys gosod lloriau newydd yn yr ardaloedd aros. Disgrifiodd y staff y cynlluniau i barhau i uwchraddio'r feddygfa a fydd yn gwella safonau atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd yr oedd angen eu gwella ar unwaith.

Nid oedd archwiliad atal a rheoli heintiau ar gael, a gwnaethom argymhell y dylid ei gwblhau ar fyrder. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau sefydledig, gan gynnwys polisi atal a rheoli heintiau'r practis. Caiff manylion am y gwelliant hwn sydd ei angen ar unwaith a'r camau unioni eu nodi yn Atodiad B.

Roedd y cofnodion yn cadarnhau bod gan bob aelod perthnasol o'r staff clinigol imiwnedd i Hepatitis B. Roedd polisi cyfredol ar waith hefyd ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd polisi ar waith ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwyddau ac roedd ar gael i'r staff. Cafodd y broses y dylai'r staff ei dilyn pe byddent yn cael anaf a achosir gan nodwydd ei disgrifio i ni ac roedd yn cyd-fynd â'r polisi.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ac roedd polisi ar waith i ategu hyn. Roedd gwastraff yn cael ei storio'n briodol mewn ystafell wedi'i chloi. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw finiau hylendid i fenywod ar gael. Roedd newid i'r contract yn golygu nad oedd biniau wedi cael eu dosbarthu i'r practis eto. Codwyd hyn ar y pryd a chafwyd cadarnhad ers hynny bod y biniau bellach ar gael.

Roedd gan y practis gontract glanhau ac roedd amserlenni glanhau i'w gweld.

Roedd trefniadau addas ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd un o'r ddau glaf a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod arwyddion ger y fynedfa yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt afiechyd heintus.

Roedd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod hylif diheintio dwylo ar gael, a dywedodd y rhai a atebodd y cwestiwn fod y practis yn lân yn eu barn nhw.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Gwelsom fod presgripsiynau yn cael eu cadw mewn cwpwrdd; roedd trefniadau ar waith i osod clo arno. Caiff presgripsiynau eu tynnu oddi ar y cyfrifiaduron dros nos a'u cadw mewn cwpwrdd wedi'i gloi. Dywedwyd wrthym fod y practis yn bwriadu cyflwyno proses gofnodi newydd ar gyfer y drefn hon yn fuan.

Disgrifiodd y staff y broses a oedd ar waith o ran pryd a phwy sy'n casglu presgripsiynau wythnosol, y mae modd ei harchwilio. Gwnaethom argymhell y dylid ehangu'r broses hon i gynnwys y drefn ar gyfer casglu presgripsiynau ar gyfer cyffuriau a reolir.

Rhaid i'r practis ehangu ei broses a gallu archwilio pryd a phwy sy'n casglu presgripsiynau ar gyfer cyffuriau a reolir.

Roedd y broses a oedd yn cael ei dilyn gan y practis ar gyfer presgripsiynau rheolaidd yn glir. Roedd presgripsiynau yn cael eu prosesu mewn modd amserol gan glercod a oedd wedi cael hyfforddiant addas ac yn cael eu hawdurdodi gan feddyg.

Roedd polisi rhagnodi ar waith ac roedd hyfforddiant rheolaidd ar gael i'r clercod rhagnodi er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau'n gyfredol.

Roedd polisi cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau a brechlynnau y mae angen eu cadw mewn oergell, ac roedd oergelloedd clinigol yn cael eu defnyddio i'w storio'n briodol. Roedd gwiriadau dyddiol o dymheredd yn cael eu cwblhau a'u

cofnodi. Roedd cylchrediad aer da yn yr oergelloedd y gwnaethom eu harchwilio am fod y meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Roedd y practis wedi enwebu unigolyn i fod yn gyfrifol am archwilio'r cyffuriau bob wythnos a bob mis, ac roedd y staff nyrsio yn gwybod pwy oedd yr unigolyn hwn. Roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos tystiolaeth o'r gwiriadau o'r cyffuriau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod y dyddiad defnyddio ar rai o'r cyffuriau a'r cyfarpar wedi mynd heibio. Ceir rhagor o fanylion am y camau gweithredu a gymerwyd gan AGIC mewn perthynas â'r mater hwn yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Roedd yr holl gyffuriau a chyfarpar brys ar gael ac yn cyrraedd y safonau a nodir yng nghanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Mae'r tîm nyrsio yn gyfrifol am eu gwirio bob wythnos a chaiff y gwiriadau eu dogfennu. Gwnaethom drafod â'r staff y posibilrwydd y gellid defnyddio bag brys dynodedig i storio'r holl eitemau brys. Byddai hyn yn galluogi'r staff i gael gafael ar yr eitemau yn gyflym pan fo'u hangen yn hytrach na chasglu nifer o fagiâu a blychau gwahanol.

Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael ac wedi'i wefru'n llawn. Gwelsom fod y diffibriliwr yn cynnwys padiau ar gyfer oedolion a phlant. Roedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o leoliad y diffibriliwr, ac roedd arwydd yn y dderbynfa yn nodi ei leoliad.

Gwelsom fod y dyddiad ar y silindr ocsigen yn briodol, roedd lefelau stoc priodol ar ei gyfer ac roedd yn cael ei wirio bob wythnos.

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith a nodwyd eu bod yn cynnwys polisi ar gyfer oedolion a phlant. Roedd y polisi yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff ar y gyriant a rennir. Roedd gan y practis arweinwyr diogelu wedi'u henwi a oedd wedi'u cofnodi yn y polisi.

Gwelsom nad oedd y lefelau hyfforddiant diogelu gofynnol ar gyfer y staff, fel y'u rhestrir yn y polisi, yn cyfateb i'r dystiolaeth a welsom ar dystysgrifau.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl yn cael eu nodi'n benodol os oedd unrhyw bryderon diogelu yn eu cylch a dilynwyd llwybr diogelu addas.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd diogelu amlasiantaeth yn cael eu cynnal, a bod ymwelwyr iechyd yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny. Caiff y cyfarfodydd eu cofnodi. Mae'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau y gall pobl a staff roi gwybod am bryderon diogelu, ac y gellir cymryd y camau angenrheidiol i amddiffyn lles cleifion sy'n agored i niwed.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac wedi'u gwirio'n briodol. Roedd contractau addas ar waith ar gyfer trwsio cyfarpar perthnasol neu gael cyfarpar newydd. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu hanfon at y staff drwy e-bost a'u trafod â nhw mewn cyfarfodydd.

Roedd prosesau priodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys trafodaethau mewn cyfarfodydd mewnol a rhoi gwybod drwy system Datix, lle y bo'n briodol. Gwnaethom nodi nad oes cofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd o gyfarfodydd ac rydym yn argymhell y dylid rhoi trefniadau ar waith yn hyn o beth.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnod ei gadw o gyfarfodydd, y gellir ei rannu â'r staff fel y bo'n briodol.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon dda, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys canlyniadau ymchwiliadau/profion a naratif yn esbonio pam y gofynnwyd am yr ymchwiliadau.

Roedd cleifion yr oedd angen cymorth meddygol brys arnynt neu'r rhai hynny a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn cael cymorth a gwybodaeth addas. Gall y practis gysylltu â'r tîm argyfwng iechyd meddwl lleol, a dywedwyd wrthym fod y tîm wedi rhoi cymorth prydlon i gleifion.

Roedd proses addas ar waith gan y practis i ymdrin â'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar gyfer ardystio marwolaeth unigolyn.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

Gwelsom nad oedd codau Read clinigol yn cael eu defnyddio'n gyson sy'n golygu ei bod yn anodd dadansoddi ac archwilio cofnodion. Mae cynlluniau ar waith i'r practis symud ei gofnodion i system newydd, a fydd yn helpu i liniaru'r broblem hon.

Roedd cofnodion cleifion lle roedd clefydau cronig wedi'u cofnodi yn cynnwys crynodeb llawn o'r cyflwr/cyflyrau, gan gynnwys holl broblemau blaenorol a pharhaus y claf, yn ogystal â'r feddyginiaeth yr oedd yn ei chymryd.

O'r nodiadau a welsom, nodwyd nad oedd dewis iaith y cleifion bob amser wedi'i gofnodi.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Gall y practis atgyfeirio at wasanaethau ffisiotherapi ac iechyd meddwl a gall y rhan fwyaf o'r cleifion atgyfeirio eu hunain at wasanaethau penodol.

Ceir cydberthnasau gwaith agos â'r grŵp clwstwr, a chawsom wybod am y prosiectau y mae'r practis yn rhan ohonynt drwy'r clwstwr, gan gynnwys Fit for 50 a Teen Talk.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd proses glir ar waith yn y practis ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, fel newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir a byddai pob aelod o'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau drwy e-bost.

Roedd y dull rheoli dogfennau ar y polisiau a welsom yn cynnwys dyddiad adolygu a llofnod. Ar y cyfan, roedd y polisiau a welsom yn fanwl ac yn benodol i'r practis. Caiff polisiau eu cadw ar yriant a rennir sy'n golygu y gall pob aelod o'r staff eu gweld. Roedd copïau papur hefyd ar gael.

Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i rannu unrhyw hysbysiadau diogelwch â'r staff.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal, ond y byddai'r practis yn hoffi eu cynnal yn amlach. Gwelsom gofnodion rhai cyfarfodydd, ond gwnaethom argymhell y dylid cadw cofnodion a nodi camau gweithredu ar gyfer pob cyfarfod. Caiff unrhyw wersi i'w dysgu eu rhannu â'r staff er mwyn sicrhau bod y practis yn parhau i gyrraedd safonau gwasanaeth da ac i wneud gwelliannau, lle y bo'n berthnasol. Tynnwyd sylw at hyn yn gynharach yn yr adroddiad hefyd.

Roedd y practis yn gweithio'n agos gyda grŵp clwstwr y Bwrdd Iechyd ac yn cydweithio i arwain prosiectau, rhannu gwersi a ddysgwyd a chyd-reoli mentrau.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym am y broses y mae'r practis yn ei defnyddio i recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi, a oedd yn cynnwys geirdaon ysgrifenedig, tystiolaeth o gofrestrïadau â chyrff proffesiynol a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Fel rhan o'r system a oedd yn cael ei defnyddio i wirio cofrestrïad gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, roedd yn ofynnol i'r staff gyflwyno copi o'u tystysgrif broffesiynol i'w chadw yn eu ffeil.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried gofyn i'r staff ddarparu hunan-ddatganiad i gadarnhau eu bod yn addas o hyd i weithio i'r gwasanaeth ac nad oes unrhyw newidiadau wedi digwydd ers eu gwiriad diwethaf gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae arfarniadau anffurfiol wedi bod yn cael eu cynnal ar gyfer y staff, ond dywedwyd wrthym y byddant bellach yn cael eu dogfennu.

Rhaid i'r practis gadarnhau'r system a gaiff ei rhoi ar waith i sicrhau bod unigolion yn parhau'n addas i weithio yn y practis.

Roedd proses sefydlu ar gael i aelodau newydd o'r staff ac roedd polisi recriwtio ar waith. Roedd yn cynnwys yr hyn a ddywedwyd wrthym.

Nid oedd cynllun gweithlu ar waith ond roedd rotas ar gyfer pob maes gwaith. Caiff cyfnodau gwyliau'r staff eu cynllunio er mwyn gallu rhoi trefniadau cyflenwi ar waith. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw broblemau o ran y cymysgedd sgiliau ar draws y timau a chaiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd gan reolwr y practis, gan sicrhau y caiff niferoedd staff a lefelau staff clinigol eu cynnal.

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, ond roedd rhai meysydd wedi dirwyn i ben ac roedd angen eu cwblhau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn parhau'n gyfredol. Mae angen i bob aelod o'r staff gweinyddol gwblhau hyfforddiant diogelu a hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd, ac mae angen i un nyrs ddiweddarau ei hyfforddiant diogelu.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf a'u bod wedi cwblhau'r lefelau sy'n berthnasol i'w rôl.

Roedd matrices hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd yn rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth pob aelod o staff y practis â'r gofynion o ran hyfforddiant. Roedd platform hyfforddiant ar-lein ar gael i bob aelod o'r staff a chaiff y staff amser i gwblhau hyfforddiant.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r matrices hyfforddiant â phob aelod o'r staff clinigol a sicrhau y caiff ei fonitro'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn parhau'n gyfredol.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod eu ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth am gyflogaeth a oedd yn benodol i'r gofynion yn y polisi recriwtio. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, contractau cyflogaeth ac imiwnedd i Hepatitis B.

Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Cadarnhaodd canlyniadau'r staff o holiadur AGIC y canlynol:

- Dywedodd tri o'r pedwar aelod o staff eu bod yn gallu ymdopi â'r holl ofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith
- Roedd pob un ohonynt yn cytuno bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i gyflawni eu swydd
- Roedd hanner yn cytuno bod cymysgedd sgiliau priodol yn y lleoliad.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gan y practis broses gwyno gynhwysfawr ar waith. Roedd gweithdrefn gwyno a pholisi cwyno a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Roedd staff penodedig yn y practis a oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion. Roedd hyn wedi'i nodi'n glir yn y polisi cwyno. Caiff cwynion/pryderon eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff.

Gwelsom dystiolaeth fod awgrymiadau gan gleifion yn cael eu croesawu a bod y practis yn gweithredu arnynt. Roedd blwch awgrymiadau ar gael wrth ymyl y dderbynfa. Roedd yn gadarnhaol clywed bod grŵp cyfranogiad cleifion y practis wedi ailddechrau ar ôl COVID-19. Gwnaethom gynnig y gellid arddangos unrhyw awgrymiadau roedd y practis yn eu rhoi ar waith o ganlyniad i adborth gan gleifion er mwyn dangos sut roedd wedi defnyddio'r adborth hwn i wella'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn teimlo y gallent siarad â rheolwr y practis am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Yn ogystal, roeddent yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt â rheolwr y practis er mwyn iddo eu hystyried. Roedd tri o'r pedwar aelod o staff a gwblhaodd arolwg AGIC yn cytuno y gallent wneud awgrymiadau i wella gwasanaethau. Roedd tri o'r pedwar aelod o staff yn anghytuno eu bod yn cael eu cynnwys wrth benderfynu ar newidiadau i'w cyflwyno sy'n effeithio ar eu gwaith.

Gwnaethom siarad â'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig. Gwnaethom argymhell y dylid ymgymryd â hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel y'u nodir yng Nghanllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023.

Rhaid i'r practis gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael i'w weld ar y wefan ac roedd ar gael yn yr ystafell aros.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd tystiolaeth bod rhai archwiliadau clinigol a mewnlol ar waith er mwyn monitro ansawdd. Dywedwyd wrthym fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phob rhan o'r practis er mwyn gwneud gwelliannau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Darparodd y practis enghreifftiau o'r effaith y mae'n ei chael, fel rhanddeiliad yng ngofal cleifion, ar rannau eraill o'r system gofal iechyd. Roedd hyn yn cynnwys dilyn llwybrau clinigol y bwrdd iechyd. Mae'r practis hefyd yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â phartneriaid y system mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol amrywiol, fel cyfarfodydd clwstwr a chyfarfodydd rheolwyr practisau.

Roedd cydberthnasau cydweithredol da ar waith â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr. Roedd y practis yn gweithio gyda'r clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Willowbrook

Dyddiad yr arolygiad: 03 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod cyffuriau Atodlen 4 yn cael eu storio'n briodol yn unol â Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod Diazepam yn cael ei storio mewn cwpwrdd nad oedd wedi'i gloi. Roedd y clo wedi torri a chadarnhaodd y staff eu bod wedi rhoi gwybod am y mater a'u bod yn aros iddo gael ei drwsio.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: - Symud y Diazepam i leoliad storio diogel dros dro. Er enghraifft, cwpwrdd arall wedi'i gloi. - Cofnodi'r digwyddiad yn ffurfiol (e.e. drwy Datix). - Trefnu bod y clo yn cael ei drwsio neu fod clo newydd yn cael ei osod cyn gynted â phosibl.	Safon Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	- Cafodd y Diazepam ei symud ar unwaith i gwpwrdd y gellid ei gloi yn Swyddfa Rheolwr y Practis - Cofnodwyd y digwyddiad yn ffurfiol ar Datix ar 10.02.2025 - Cafodd y clo ei drwsio ar 07.02.2025	- Rachel Robinson - Kate Evans - Kate Evans	- Ar unwaith - bellach wedi'i gwblhau - O fewn wythnos - bellach wedi'i gwblhau

Felly nid oedd y practis yn cydymffurfio â'r gofynion o ran storio cyffur Atodlen 4 yn ddiogel. Er nad yw'n orfodol storio'r cyffuriau a reolir a nodir yn Atodlen 4 yn y cwpwrdd cyffuriau a reolir, rhaid i'r practis sicrhau y cânt eu storio'n ddiogel. Rhaid i'r practis gymryd camau ar unwaith i sicrhau y caiff Diazepam ei storio'n ddiogel er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod.	• Cynnal archwiliad a gwiriad o'r stocrestr ar unwaith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyffuriau ar goll. • Adolygu gweithdrefnau gweithredu safonol y practis ar gyfer rheoli cyffuriau Atodlen 4 er mwyn nodi unrhyw welliannau a all atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol. • Sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn ymwybodol o'r digwyddiad ac y cânt eu hatgoffa am y gweithdrefnau ar gyfer rheoli cyffuriau Atodlen 4, gan gynnwys beth i'w wneud os bydd achos o dor diogelwch.		• Cynhaliwyd archwiliad a gwiriad o'r stocrestr ar unwaith ar 03.02.2025 a nodwyd nad oedd unrhyw gyffuriau ar goll. • Cynhaliwyd adolygiad o'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar 05.02.2025. Nodwyd nad oedd angen gwella'r weithdrefn gan mai methiant i fynd ar drywydd mater cynnal a chadw â'r contractwr oedd y digwyddiad hwn. • Rhannwyd manylion y digwyddiad â phob aelod perthnasol o'r staff. Cafodd pob	• Littu Poulouse • Kate Evans • Kate Evans	• O fewn wythnos - bellach wedi'i gwblhau • Ar unwaith - bellach wedi'i gwblhau • O fewn wythnos - bellach wedi'i gwblhau • Ar unwaith -
--	---	--	--	--	---

				aelod o'r staff eu hatgoffa am y gweithdrefnau ar gyfer rheoli cyffuriau Atodlen 4 ac maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd achos o dor diogelwch.		bellach wedi'i gwblhau
2.	Yn ystod yr arolygiad, daeth AGIC o hyd i gyffuriau a chyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio a oedd ar gael i'w defnyddio o hyd. Roedd hyn yn cynnwys brechlynnau a dyfeisiau dal ('spacers') ar gyfer pŷmpiau asthma. Gall methu â gwaredu eitemau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio olygu y bydd clinigydd yn eu defnyddio'n anfwriadol, gan effeithio o bosibl ar ddiogelwch cleifion.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl gyffuriau ac eitemau clinigol y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio eu symud o'r ystafelloedd trin a'u gwaredu'n briodol.	Safon Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	Caiff archwiliadau o'r cyffuriau eu cwblhau bob wythnos. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer symud cyffuriau ac eitemau clinigol y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio a'u gwaredu'n ddiogel.	Pob nyrs	Ar unwaith - bellach wedi'i gwblhau

3.	Ni chawsom sicrwydd fod gweithdrefnau cadarn ar waith i wneud yn siŵr bod prosesau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu cynnal yn y feddygfa. Nid oedd archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau, ac o edrych ar yr amgylchedd, gwelsom feysydd y mae angen eu gwella ar unwaith. Roedd hyn yn cynnwys llenni preifatrwydd nad oedd dyddiad wedi'i nodi arnynt i ddangos pryd y dylid gosod llenni newydd; troli deunydd trin clwyfau â ffrâm a oedd wedi rhydu, a rhannau o'r llawr a chypyrddau a oedd wedi torri yr oedd angen eu trwsio neu osod eitemau newydd yn eu lle.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: - cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau a sicrhau y caiff ei gynnal o leiaf unwaith y flwyddyn - sicrhau y caiff llenni preifatrwydd newydd eu gosod a nodi'r dyddiad hongian arnynt er mwyn dangos pryd y dylid eu newid - trwsio'r troli deunydd trin clwyfau sydd wedi rhydu neu gael troli newydd yn ei le - trwsio'r rhannau o'r llawr a'r cypyrddau sydd wedi'u difrodi neu osod eitemau newydd yn eu lle	Safon Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	- Cafodd Nyrs Rachel Robinson ei henwebu fel arweinydd ar gyfer yr archwiliadau atal a rheoli heintiau. Bydd Nyrs Rachel yn cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau ar 14.02.2025. Bydd Nyrs Rachel yn cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd ar ôl y dyddiad hwn. - Cafodd llenni preifatrwydd eu harchebu. Byddwn yn gwneud nodyn o'r dyddiad hongian er mwyn dangos pryd y dylid eu newid. - Rydym wedi cael gwared ar y troli a oedd wedi rhydu ac wedi archebu troli	- Rachel Robinson - Kate Evans - Kate Evans - Kate Evans	- O fewn pythefnos - O fewn pythefnos - Ar unwaith - bellach wedi'i gwblhau - O fewn chwe mis
----	---	--	--	--	---	--

				deunydd trin clwyfau newydd. Nodwyd y rhannau o'r llawr sydd wedi'u difrodi yng nghynllun gweithredu'r feddygfa fel cam gweithredu i ymdrin ag ef o fewn terfyn amser o chwe mis. Cafodd y cypyrddau eu trwsio.		
--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Kate Evans

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 10.02.2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Willowbrook

Dyddiad yr arolygiad: 03 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd polisi llif gwaith ar waith, ond gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r rhestr llif gwaith er mwyn sicrhau bod yr unigolyn mwyaf priodol yn y tîm yn ymdrin â gohebiaeth.	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r rhestr llif gwaith yn y polisi er mwyn sicrhau bod yr unigolyn mwyaf priodol yn ymdrin â phob gohebiaeth	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff y rhestr llif gwaith ei diweddarau er mwyn sicrhau bod cyfarwyddiadau clir o ran ble y dylid anfon gohebiaeth. Caiff y rhestr llif gwaith ei rhannu â phob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod y broses llif gwaith gywir yn cael ei dilyn.	Kate Evans	Caiff y rhestr llif gwaith ei diweddarau o fewn 3 wythnos i ddyddiad yr adroddiad a'i rhannu â phob aelod o'r staff - cam gweithredu wedi'i gwblhau
2.	Nid oedd y cynllun parhad busnes yn cynnwys gwybodaeth i	Rhaid i'r practis ddiweddarau ei gynllun parhad busnes i gynnwys	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Cynhelir trafodaeth â Kate Evans a Dr Okosieme er mwyn	Kate Evans	Caiff y drafodaeth ei chynnal a chaiff y cynllun ei

	esbonio sut y byddai gwasanaethau gofal iechyd hanfodol yn cael eu darparu o hyd i gleifion pe byddai'r unig feddyg teulu sy'n ymarfer yn y practis yn gadael yn sydyn.	y strategaeth a gaiff ei rhoi ar waith os na fydd yr unig feddyg teulu sy'n ymarfer yn y practis yn gallu gweithio.		sicrhau bod cynllun ar waith pe byddai Dr Okosieme yn gadael y practis yn sydyn. Caiff y cynllun parhad busnes ei ddiweddarau ar ôl cynnal y drafodaeth a llunio cynllun.		lunio o fewn 2 mis i ddyddiad yr adroddiad
3.	Nodwyd gennym nad oedd cyfarfodydd yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ac nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn cael eu nodi.	Rhaid i'r practis gofnodi'r cyfarfodydd a gynhelir ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau o bwys a sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhoi ar waith.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu trefnu a'u cofnodi'n ffurfiol gan ddefnyddio taenlen a gaiff ei chadw ar y Gyriant G. Caiff Elizabeth Hobson ei phenodi i gymryd nodiadau er mwyn sicrhau y caiff pob cyfarfod ei gofnodi ac y caiff camau gweithredu eu nodi.	Kate Evans	O fewn pythefnos i ddyddiad yr adroddiad - cam gweithredu wedi'i gwblhau
4.	Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio yn ystafell y nyrs. Gallai fod yn anodd cael gafael ar y pecyn brys	Rhaid i'r practis ystyried symud y cyffuriau a'r cyfarpar brys i ardal lle	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fan arall addas ar gael ar gyfer storio'r cyffuriau brys	Kate Evans	O fewn 3 mis i ddyddiad yr adroddiad

	os oedd claf yn yr ystafell ac felly gwnaethom argymell y dylid symud y cyffuriau a'r cyfarpar brys i ardal lle gellid cael gafael arnynt yn hawdd.	gellid bob amser cael gafael arnynt yn hawdd.		gan fod angen iddynt fod yn ddiogel ac yn hygyrch; Bydd y practis yn ymchwilio i ddewisiadau amgen addas a fydd yn sicrhau bod y cyffuriau brys bob amser yn ddiogel ac ar gael yn hawdd.		
5.	Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff nad oedd unrhyw gyngor na goruchwyliaeth glinigol yn cael eu rhoi o ran atal a rheoli heintiau, ac roedd hyn yn amlwg o'n canfyddiadau ar y diwrnod. Felly, gwnaethom argymell y dylai'r practis sicrhau bod gan ei arweinydd atal a rheoli heintiau yr awdurdod i arwain ac	Rhaid i'r practis sicrhau bod gan ei arweinydd atal a rheoli heintiau y sgiliau a'r profiad i arwain ac i roi newidiadau ar waith yn yr ardaloedd clinigol a'r ardaloedd anghlinigol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	Cafodd Nyrs Rachel Robinson ei henwi fel yr arweinydd atal a rheoli heintiau. Mae Nyrs Rachel Robinson, Nyrs Littu Poulose a Nyrs Marcia Mundell oll wedi cwblhau eu hyfforddiant clinigol Lefel 2 ar atal a rheoli heintiau. Mae Rheolwr y Practis Kate Evans wedi cwblhau ei	Rachel Robinson Kate Evans	Y staff clinigol i gwblhau'r hyfforddiant ar unwaith - cam gweithredu bellach wedi'i gwblhau Y staff anghlinigol i gwblhau'r hyfforddiant o fewn 3 mis i ddyddiad yr adroddiad Caiff archwiliad atal a rheoli

i roi newidiadau ar waith yn yr ardaloedd clinigol a'r ardaloedd anghlinigol.			hyfforddiant anghlinigol Lefel 1 ar atal a rheoli heintiau. Dyrannwyd yr hyfforddiant hwn i bob aelod arall o'r staff anghlinigol a rhoddwyd amser i bob aelod o'r staff ei gwblhau. Bydd Nyrs Rachel Robinson yn cwblhau archwiliad atal a rheoli heintiau. Bydd Nyrs Rachel Robinson yn cwblhau archwiliad wythnosol o'r arferion golchi dwylo Caiff posteri yn rhoi cyngor golchi dwylo eu gosod ym mhob ystafell glinigol. Caiff rhestr wirio atal a rheoli heintiau ei		heintiau ei gynnal ar unwaith a'i gwblhau bob chwe mis wedi hynny - cwblhawyd yr archwiliad atal a rheoli heintiau ar 14.02.2025 gan Nyrs Rachel Robinson, cam gweithredu bellach wedi'i gwblhau Mae archwiliad wythnosol o arferion golchi dwylo eisoes ar waith - cam gweithredu wedi'i gwblhau Caiff posteri eu gosod o fewn 3 wythnos i'r ymweliad - mae posteri bellach
--	--	--	---	--	---

				chwblhau bob wythnos gan Theresa Evans		wedi'u gosod ym mhob ystafell glinigol - cam gweithredu wedi'i gwblhau Caiff rhestr wirio atal a rheoli heintiau ei chwblhau bob wythnos o fewn 3 wythnos i ddyddiad yr ymweliad - mae'r rhestr wirio bellach yn cael ei chwblhau bob wythnos, cam gweithredu wedi'i gwblhau
6.	Dywedwyd wrthym fod proses ar waith o ran pryd a phwy sy'n casglu presgripsiynau wythnosol, y mae	Rhaid i'r practis ehangu ei broses a gallu archwilio pryd a phwy sy'n casglu	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Caiff llyfrau cyffuriau a reolir eu harchebu a'u rhoi yn y dderbynfa. Caiff y llyfrau eu defnyddio	Kate Evans	Caiff y llyfrau eu harchebu ar unwaith - cafodd y llyfrau eu harchebu ac

	modd ei harchwilio. Gwnaethom argymell y dylid ehangu'r broses hon i gynnwys y drefn ar gyfer casglu cyffuriau a reolir.	presgripsiynau ar gyfer cyffuriau a reolir.		bob tro y bydd rhywun yn casglu presgripsiwn ar gyfer cyffur a reolir. Caiff y broses newydd hon ei rhannu â phob cydweithiwr unwaith y bydd y weithdrefn newydd ar waith.		maent bellach wedi cyrraedd, cam gweithredu wedi'i gwblhau Caiff y staff eu hysbysu am y polisi newydd ar gyfer casglu presgripsiynau unwaith y bydd y llyfrau wedi cyrraedd - mae'r staff wedi cael eu hysbysu am y weithdrefn newydd ac mae'r llyfrau bellach yn cael eu defnyddio, cam gweithredu wedi'i gwblhau
7.	Gwelsom nad oedd y lefel o hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i rolau'r staff, ac fel y rhestrir	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	Gofynnir i'r meddygon teulu sicrhau eu bod wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 1, 2 a	Kate Evans	Gofynnir i'r meddygon teulu gwblhau eu hyfforddiant o fewn 4 wythnos i

yn y polisi, yn cyfateb i gofnodion y staff.	oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.		3 a hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 1, 2 a 3 Gofynnir i'r nyrsys sicrhau eu bod wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 1, 2 a 3 a hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 1, 2 a 3 Gofynnir i'r staff gweinyddol sicrhau eu bod wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 1 a hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 1 Caiff pob cwrs ei gofnodi ar y matrices staff a chedwir copi o bob tystysgrif ar y Gyriant G		ddyddiad yr adroddiad - Mae pob meddyg teulu bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant, cam gweithredu wedi'i gwblhau Gofynnir i'r nyrsys gwblhau eu hyfforddiant o fewn 4 wythnos i ddyddiad yr adroddiad - Mae pob nyrs bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant, cam gweithredu wedi'i gwblhau Gofynnir i'r staff gweinyddol gwblhau'r hyfforddiant o fewn 3 mis i ddyddiad yr adroddiad
--	---	--	--	--	---

						Caiff y matrices ei ddiweddu ar unwaith a chaiff ffolder ei greu ar y gyriant G - cam gweithredu wedi'i gwblhau
	Gwnaethom nodi nad oes cofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd o gyfarfodydd ac rydym yn argymhell y dylid rhoi trefniadau ar waith yn hyn o beth.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnod ei gadw o gyfarfodydd, y gellir ei rannu â'r staff fel y bo'n briodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Cafodd Elizabeth Hobson ei phenodi i gymryd nodiadau. Bydd Elizabeth yn mynd i bob cyfarfod ac yn teipio'r nodiadau cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod ac yn eu hanfon at Kate Evans. Wedyn bydd Kate Evans yn anfon unrhyw gamau gweithredu a nodwyd ymlaen fel y bo'n ofynnol. Os na fydd Elizabeth Hobson ar gael, bydd	Kate Evans	Ar unwaith - cam gweithredu wedi'i gwblhau

				Hayley Cowan yn cymryd nodiadau.		
8.	O'r nodiadau a welsom, nodwyd nad oedd dewis iaith y cleifion bob amser wedi'i gofnodi.	Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff dewis iaith y cleifion ei gofnodi pan fyddant yn cofrestru. Caiff pob un o aelodau'r staff eu hysbysu am hyn.	Kate Evans	Ar unwaith - cam gweithredu wedi'i gwblhau
9.	Nid oedd gan y practis broses ffurfiol i sicrhau bod unigolion yn parhau'n addas i weithio yn y practis.	Rhaid i'r practis gadarnhau'r system a gaiff ei rhoi ar waith i sicrhau bod unigolion yn parhau'n addas i weithio yn y practis.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	Bydd Kate Evans yn cadarnhau addasrwydd y meddygon teulu i ymarfer bob blwyddyn. Gwneir hyn drwy edrych ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ymarfer. Bydd Kate Evans yn cadarnhau addasrwydd y nyrsys i ymarfer bob blwyddyn. Gwneir hyn drwy edrych ar	Kate Evans	Gweithredu ar unwaith. Ychwanegu addasrwydd meddygon teulu a nyrsys i ymarfer at y matrices sgiliau - cam gweithredu wedi'i gwblhau Gweithredu ar unwaith. Mae gan bob aelod o'r staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chafodd taflen

				wefan y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ymarfer. Caiff gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cwblhau pan fydd aelod o staff yn dechrau gweithio yn y practis. Caiff ffurflen hunan-ddatganiad blynyddol ei defnyddio a'i chwblhau gan bob aelod o'r staff bob blwyddyn er mwyn datgan na fu unrhyw newidiadau ers cyhoeddi eu gwiriad diwethaf gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.		datganiadau ei chreu - cam gweithredu wedi'i gwblhau
10.	Ar y cyfan, gwelsom fod y staff wedi cwblhau eu	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal -	Bydd pob aelod o'r staff gweinyddol yn	Kate Evans	Bydd y staff gweinyddol yn cwblhau

	hyfforddiant gorfodol, ond roedd rhai meysydd wedi dirwyn i ben ac roedd angen eu cwblhau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol. Mae angen i bob aelod o'r staff gweinyddol gwblhau hyfforddiant diogelu a hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd, ac mae angen i un nyrs ddiweddarau ei hyfforddiant diogelu.	hyfforddiant gorfodol diweddaraf a'u bod wedi cwblhau'r lefelau sy'n berthnasol i'w rôl.	Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	cwblhau hyfforddiant diogelu Caiff hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd ei drefnu'n gynnar er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf Bydd y nyrsys yn cwblhau hyfforddiant diogelu		hyfforddiant o fewn 3 mis Caiff hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd ei drefnu o fewn 6 wythnos i ddyddiad yr adroddiad Bydd y nyrsys yn cwblhau hyfforddiant diogelu o fewn 3 wythnos - cam gweithredu wedi'i gwblhau
11.	Roedd matrices hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd yn rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth pob aelod o staff y practis â'r gofynion o ran hyfforddiant. Dim ond	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r matrices hyfforddiant â phob aelod o'r staff clinigol a sicrhau y caiff ei fonitro'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod sgiliau a gwybodaeth	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Y Gweithlu	Caiff y matrices hyfforddiant ei ddiweddarau i gynnwys pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Caiff y matrices ei fonitro bob mis gan	Kate Evans Abbi Harris	Caiff y matrices hyfforddiant ei ddiweddarau o fewn 3 wythnos i ddyddiad yr adroddiad er mwyn cynnwys pob aelod o'r staff

	y staff gweinyddol oedd wedi'u cynnwys ar y matrices ar adeg yr ymweliad.	y staff yn parhau'n gyfredol.		gydweithiwr (cydweithwyr) enwebedig. Caiff Kate Evans ei henwebu fel y cydweithiwr ar gyfer y clinigwyr a chaiff Abbi Harris ei henwebu ar gyfer y staff gweinyddol.		- cam gweithredu wedi'i gwblhau Caiff y matrices ei fonitro ar unwaith gan y cydweithwyr enwebedig - cam gweithredu wedi'i gwblhau
12.	Ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd	Rhaid i'r practis gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu	Caiff hyfforddiant ei ddyrannu i bob cydweithiwr ar Fynegai'r Practis. Bydd Kate Evans yn sicrhau bod y staff clinigol wedi cwblhau eu hyfforddiant a bydd Abbi Harris yn sicrhau bod y staff gweinyddol wedi cwblhau eu hyfforddiant	Kate Evans Abbi Harris	Caiff yr hyfforddiant ei gwblhau gan bob aelod o'r staff o fewn 3 mis i ddyddiad yr adroddiad

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Kate Evans

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 18/03/2025